Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 05.10.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# ARIANNU: Sector Bwyd a Diod Cymreig – Cronfa Her Ddatgarboneiddio a Covid

Bwriad y Gronfa Her Ddatgarboneiddio a Covid yw i ariannu prosiectau cydweithredol a all ddarparu atebion arloesol mewn perthynas â'r agenda datgarboneiddio, gan helpu i adfer sector bwyd a diod Cymru sydd wedi cael ei effeithio'n andwyol gan y pandemig. Mae cyfanswm o £2,400,000 ar gael drwy dwy ffrwd ariannu. Mae'r gronfa yn cau am 1:00pm ar 23 Tachwedd 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i :

https://bit.ly/3Acs1t6

# RHEOLIADAU: Newidiadau gofynion labelu alergenau

Ar 1 Hydref 2021, bu newid yn y gyfraith o ran labelu alergenau ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS). Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi lansio Hwb PPDS sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, ewch i:

https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-ar-gyfer-busnesau/newidiadau-ppds

# COVID-19: Dyddiad cau ar gyfer tâl salwch Covid-19

Mae Llywodraeth y DU wedi diweddaru ei chanllawiau ar gyfer hawliadau a wnaed o dan Gynllun Ad-dalu Tâl Salwch Statudol y Coronafeirws. Gall cyflogwyr ddim ond hawlio ad-daliad ar dâl salwch statudol a dalwyd i weithwyr cyflogedig oherwydd Covid-19 a oedd i ffwrdd o'r gwaith ar neu cyn 30 Medi 2021. Rhaid cyflwyno neu ddiwygio hawliadau ar neu cyn 31 Rhagfyr 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3iymMOD

# CEFNOGAETH BUSNES: Darparwyr Gofal Plant a Gwaith Chwarae

Mae Busnes Cymru wedi cyhoeddi adran newydd ar eu gwefan ar gyfer darparwyr gofal plant a gwaith chwarae i'w helpu i gael gafael ar y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i sefydlu, datblygu a thyfu eu busnes yn gynaliadwy. I weld y dudalen, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/cymorth-busnes-i-ddarparwyr-gofal-plant-gwaith-chwarae

## RHEOLIADAU: Hyfforddiant atodol wedi ei gyflwyno ar gyfer goruchwylwyr drws a gwarchodwyr diogelwch

O 1 Hydref 2021, bydd angen cymhwyster cymorth cyntaf a'r hyfforddiant atodol newydd ar bob deiliad trwydded Goruchwylio Drws a Gwarchodlu Diogelwch cyn iddynt adnewyddu eu trwydded. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3a6Gigr

## GWOBRYO: Gwobrau Twristiaeth Go North Wales 2021

Mae Gwobrau Twristiaeth Go North Wales, sy'n dathlu a chydnabod rhagoriaeth yn sectorau lletygarwch a thwristiaeth y rhanbarth, bellach ar agor ar gyfer ceisiadau. Os ydych chi'n ymwneud â diwydiant twristiaeth y rhanbarth, mae'r gwobrau hyn ar eich cyfer chi! Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 10 Hydref 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://gonorthwalestourismawards.website/

## COVID-19: Safleoedd profi PCR

Mae'r ganolfan brofi coronafeirws ym Mhwllheli wedi cau. Mae canolfan brofi gyrru drwodd newydd yn agor yfory, 6 Hydref 2021, ym Maes Parcio Llyn Bach, Y Gerddi, Porthmadog LL49 9DD. Bydd ar agor o 9:30am–4:30pm, 7 diwrnod yr wythnos. Mae angen gwneud apwyntiad, naill trwy ffonio 119, neu ymweld â:

https://bipbc.gig.cymru/covid-19/profi-covid-19/trefnwch-brawf-covid-19/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cygor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru